

Newyddion Cefn Gwlad 2009

Sir Ddinbych a Bryniau Clwyd AHNE



Croeso

Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio i wella'r dirwedd, y bywyd gwylt a threftadaeth arbennig Sir Ddinbych a Bryniau Clwyd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), a hefyd i fod yn gymorth i bobl fwynhau a gwerthfawrogi'u cynefin. Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych yn rheoli dros 34 o safleoedd Cefn Gwlad yn lleoedd sy'n werth ymweld â hwy a'u gwarchod, dynodwyd rhai yn genedlaethol neu'n rhyngwladol.

Darpara'r Tîm Cefn Gwlad wasanaeth sy'n integredig ac sy'n cynnwys; cadwraeth, bioamrywiaeth, archeoleg, Geoamrywiaeth, addysg, dehongli, digwyddiadau, twristiaeth gynaliadwy, mynediad, tirwedd, ariannu, rheoli'r amgylchedd a'r adeiladau.

Fe gwblhaodd y tîm bach hwn nifer o brojectau sy'n cyfrannu at fyw yn gynaliadwy, gan weithio a meithrin parch i'n cynefin. Dangosir y cyraeddiadau hyn yn y newyddlen flynyddol hon. Ni fyddai'r llwyddiant yn bosib heb ein partneriaid a heb y gwirfoddolwyr gwych a roddodd yn hael o'u hamser, eu doniau a'u brwdfrydedd.

Gobeithio byddwch yn mwynhau ein newyddion Cefn Gwlad...

Parc Gwledig Loggerheads

☎ 01352 810614 (dyddiau'r wythnos)

☎ 01352 810586 (y pen wythnos a'r gwyliau)

loggerheads.countrypark@sirddinbych.gov.uk

Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych

Parc Gwledig Loggerheads, Nr Mold, Sir Ddinbych CH7 5LH

Swyddfa Rhuthun ☎ 01824 708261

Swyddfa'r Rhyl ☎ 01745 356197

Swyddfa Llangollen ☎ 01978 869618

www.sirddinbych.gov.uk/cefn gwlad

Ceir yr holl deithiau cerdded, digwyddiadau, newyddion a chyhoeddiadau addysgol i'w llwytho i lawr o'r wefan hon.

www.ahnebryniauclwyd.org.uk

www.ygrugarcaerau.co.uk

www.beiciobryniauclwyd.com

www.beiciohiraethog.com

www.llwybraudyffryndyfrdwy.com

www.bioamrywiaethysirddinbych.co.uk

www.clwydiancountry.co.uk



Mae'r prosiect hwn wedi ei ariannu drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig sydd yn cael ei gyllido drwy'r Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru.



Cwmni Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig Ewrop yn Suddnodd
maen Amaethyddol Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development Europe Investing in
Rural Areas



Arweinydd Sain Personol



Gall y rhai sy'n ymweld â Moel Famau a Chorwen, y naill a'r llall, fwynhau eu taith gerdded dywysedig personol eu hunain erbyn hyn a darganfod y gorffennol diddorol sydd i'r ardal hon drwy gyfrwng y project y Grug a'r Caerau.

Gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddar, gall ymwelwyr glywed y pwyntiau sain newydd ar eu ffôn symudol am gost galwad leol neu gallant lwytho i lawr fersiwn mp3 am ddim o'r rhyngwyd.

Mae'r daith sain yn cynnwys gwybodaeth oddi wrth archeolegwyr a naturiaethwyr. Caiff ymwelwyr gyfle i gael eu harwain drwy'r ardal ddiddorol hon gan y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal ac sy'n ei hoffi.

Os hoffech fynd ar daith sain ym Mharc Gwledig Moel Famau i dwr y jiwbil neu o Gorwen i Gaer Drewyn, yr hen gaer Oes yr Haearn, yna ffoniwch 01352 230123 am daith Moel Famau a 01490 555123 am daith Caer Drewyn. Neu gallwch ymweld â gwefan y Grug a'r Caerau www.heatherandhillforts.co.uk.



Llwybr Arfordir Cymru Gyfan



Ar hyd arfordir Cymru, mae llwybrau'n cael eu creu a'u gwella gyda golwg yn y pen draw o gael un Llwybr Arfordir Cymru Gyfan erbyn y flwyddyn 2012. Ar hyn o bryd mae rhan Sir Ddinbych o'r Llwybr Arfordir Cymru Gyfan yn cael ei datblygu a'i gwella. Dyma gynllun a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy Gyngor Cefn Gwlad Cymru i wella'r mynediad i'r arfordir ar gyfer y cymunedau lleol a'r ymwelwyr. Mae rhan Sir Ddinbych yn dilyn promenâd y Rhyl i Draeth Barcbi ac yn mynd drwy gynefin y twyni, sy'n bwysig yn rhyngwladol, i Presthaven.

I gael mwy o wybodaeth, ffoniwch 01745 356197.



Defnyddiwch eich polion i gadw'n iach!

Y chwiw ffitrwydd ddiweddaraf yn cyrraedd Sir Ddinbych!

Yn wreiddiol, dull o hyfforddi sgiwyr traws-gwlad yn ystod yr haf yn y 1930au oedd Sgïo dull Nordig. Mae'n ymarfer yr holl gorff gan losgi hyd at 20% yn fwy o galoriau na cherdded yn unig. Dyma un o'r gweithgareddau hamdden ar gyfer ffitrwydd sy'n tyfu'n gyflymach nag unrhyw un arall ledled y byd, ceir pobl yn cymryd rhan mewn bron 40 o wledydd.

Dywedodd Katrina Day, Cydlynnydd 'Cerddwn Sir Ddinbych', "Mae cerdded Nordig yn ffordd hwyliog o gadw'n ffit. Mae'n addas i bob oedran gan gynnwys y rhai sydd â phroblemau symudedd. Mae cerdded yn ffordd wych o ymarfer, ond mae cerdded Nordig yn golygu eich bod yn gallu bod yn fwy llwyddiannus gan ddefnyddio polion cerdded i gryfhau'r cyhyrau ac i losgi mwy o galoriau."

Yn ôl yr ymchwil, mae'n cryfhau rhannu uchaf y corff, yn defnyddio 90% o'ch cyhyrau, yn llosgi braster ac yn cryfhau'r breichiau, brest, cefn, ysgwyddau, bol, cluniau, pen ôl a morddwydd"

- Yn ymarfer 90% o'ch cyhyrau.
- Yn llosgi 20% yn fwy o galoriau na cherdded arferol ar yr un cyflymdra.
- Curiadau'r galon yn uwch o gymharu â cherdded arferol.
- Ymarfer mwy gyda llai o ymdrech.
- Yn lleihau'r pwysau ar y pengliniau ac ar y cymalau eraill.
- Lleihau'r tyndra yn y gwddf a chyhyrau'r ysgwyddau.
- Yn lleihau poen cefn ac yn gwella symudedd y cefn.
- Cryfhau esgyrn rhannau uchaf ac isaf y corff, gan frwydro yn erbyn effaith osteoporosis.

Ffoniwch 01745 356197 neu e-bostiwch loggerheads.countrypark@SirDdinbych.gov.uk am fwy o fanylion

Yn Wylt yn Loggerheads!



Mae gardd bywyd gwyllt newydd yn cael ei chreu gan wirfoddolwyr lleol yn Loggerheads. Mae'r ardal oedd ar un adeg yn rhan aneniadol o'r gerddi te yn tyfu'n hafan i fywyd gwyllt. Yn yr ardd, a gynlluniwyd gan wirfoddolwyr, bydd pwll dŵr, gwrych newydd, blodau gwyllt brodorol, dŵl o flodau gwyllt, gardd gors a nifer o nodweddion eraill fel sypiau cynefin ac offer bwydo'r adar.

Ar ôl ei gorffen, bydd yr ardd yn ysbrydoli pobl i 'drawsnewid' darn o'u gardd eu hunain i ddenu bywyd gwyllt. Gall newidiadau bach gael effaith mawr, er enghraifft, drwy adael swp o goed a fydd yn gartref i nifer o greaduriaid fel draenog a mamaliaid bach. Bydd yr ardd yn edrych yn hardd ac yn rhoi pleser drwy'r flwyddyn i'r rhai sy'n ymweld â'r Parc Cefn Gwlad.

Nodwedd Dro



Creodd yr artist Lleol, Mike Owens, a gomisiynwyd gan Gadwyn Clwyd a Bryniau Clwyd AHNE, ddarn o gelf a ysbrydolwyd gan y dirwedd ym Mharc Gwledig Loggerheads.



Cloddio am yr oes a fu ar Benycloddiau

Yn rhan o'r Project y Grug a'r Caerau, bu archeolegwyr o Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys yn cloddio tomen ar ben gogleddol caer Penycloddiau.

Mae cerddwyr yn creu erydu ar y domen wrth gerdded Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, ac mae'n bwysig darganfod ai naill ai tomen naturiol neu un a gododd pobl yw'r domen. Cafodd ymwelwyr y cyfle i gyfarfod â'r archeolegwyr ac i ymweld â'r safle bob dydd. Yn ôl y canlyniadau cyntaf, mae'n debygol mai tomen gladdu o'r Oes Efydd yw'r domen, a adeiladwyd tua 4000 o flynyddoedd yn ôl, cyn codi caer Oes yr Haearn- sy'n 2500 mlwydd oed..

Yn ystod y cloddio, daethpwyd o hyd i garreg ag arni'r neges oddi wrth filwr y Rhyfel Byd Cyntaf. Dyma'r neges: 'Carlyle D Chamberlain, Canadian Army, Prospect, Kentucky, USA'. Yn dilyn apêl am wybodaeth, fe gysylltodd David Chamberlain, ei wŷr, â Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych, ysgrifennodd, "Although my grandfather was born in Prospect, KY he joined the Canadian Army and served with them during WWI. My grandfather was an avid hiker, outdoors man, and had a keen interest in natural history, archaeology and photography." Dywedodd Samantha Williams, Swyddog Cadwraeth Bryngeyrdd, "Er nad yw'r darganfyddiad yn hen fel y gaer neu'r domen gladdu, eto i gyd mae'n ddarn gwych o hanes cymdeithasol sy'n rhoi cipolwg ar y diwrnod hwnnw tua 90 o flynyddoedd yn ôl pan gerddodd rhyw filwr o Ganada i fyny yma a phenderfynu crafu'i enw ar garreg."



Coetiroedd Pencoed

Dyma'r bedwaredd flwyddyn i Wasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych weithio mewn partneriaeth a Gwirfoddolwyr Cadwraeth Cymuned Dinbych ar y Project Pencoed, Dinbych.

Roedd camau cyntaf y project yn dilyn cael grant o £80,000 oddi wrth Gyd Coed i drawsnewid ardal anhygyrch o goedlan a'i droi'n lle gwyrdd i bobl Dinbych a'r cyffiniau ei fwynhau. Yn wreiddiol, roedd y project yn canolbwyntio ar gael mynediad i bawb, rheoli coedlannau, adfywio, gwybodaeth a hyfforddiant i nifer o grwpiau ieuenctid lleol. Erbyn hyn mae'r goedlan yn ffynnu a'r ymwelwyr a'r fioamrywiaeth wedi cynyddu.

Mae'r gwaith diweddaraf wedi'i alluogi gan grant CSDd Iechyd a Lles. Bu'r dyddiau hyfforddiant ymarferol mewn sgiliau traddodiadol gwledig fel walio a phlygu gwrych yn llwyddiant mawr hefyd. Hyd yn hyn, dyma'r grwpiau a fanteisiodd ar y cyfle hwn: Gwirfoddolwyr Cadwraeth Cymunedol Dinbych, Y Gelli, Gwasanaethau Ieuenctid Sir Ddinbych a Gwirfoddolwyr Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych.



Cynlluniwyd nifer o sesiynau yn y coed eto eleni, felly galwch 01745 356197 am wybodaeth.

Gwella Loggerheads

Gosodwyd pwynt Sgrin Gyffwrdd newydd i werthuso yn y Ganolfan Cefn Gwlad, Parc Gwledig Loggerheads. Bydd ymwelwyr yn gallu rhoi adborth gwerthfawr am y Parc a byddwn yn gallu'i ddefnyddio i wella'r cyfleusterau a'r gwasanaeth. Yn ystod yr wyth mis cyntaf fe gwblhaodd dros 800 o bobl yr holiadur. Gall gwybodaeth fel; 50% o ymatebwyr yn cwblhau'r holiadur yn ystod y penwythnos, dydd Mawrth oedd y diwrnod tawelaf (6%) a'r diwrnod prysuraf oedd dydd Sul (30%), fod yn ddefnyddiol wrth benderfynu pryd i weithio ar y safle, pryd bydd angen mwy o staff a pryd i gynnal digwyddiadau. Y tro nesaf byddwch chi yn Loggerheads – rhowch eich barn.



Cysgodfa bysiau

Pan adeiladwyd y A494 rhwng Llanferres a Thafarn y Gelyn rai blynyddoedd yn ôl, ychydig o gysgod rhag y tywydd oedd gan y bobl leol, y plant ysgol a'r ymwelwyr oedd yn defnyddio'r bysiau rhwng yr Wyddgrug a Rhuthun nes i'r cysgodfeydd newydd gael eu hadeiladu. Roedd arian y Cynulliad yn gallu darparu cysgodfa wydr fodern yn unig a byddai'r rhain yn edrych yn ddieithr yng nghanol Bryniau Clwyd AHNE ac wrth y fynedfa i Barc Gwledig Moel Famau.

Sicrhodd Cyngor Cymuned Llanferres yr arian ychwanegol oddi wrth y Gronfa Datblygiad Cynaliadwy ar gyfer yr AHNE, Cadwyn Clwyd, a Chyngor Sir Ddinbych i ddarparu pedair cysgodfa a fyddai'n adlewyrchu'r arddull leol o ran eu cynllun a gan ddefnyddio deunydd adeiladu traddodiadol.

Gwnaed y cysgodfeydd yn lleol ac mae ynddynt baneli arddangos sydd â gwybodaeth am dirwedd, hanes a diwylliant yr ardal a nodweddion pwysig eraill.



Olion Rhufeinig

Ym Mhrestatyn oedd yr unig safle Rhufeinig rhwng Caer a Chaernarfon.



Ar ben draw Melyd Avenue ar gyrion y dref ceir olion baddondy bach a adeiladwyd ar gyfer milwyr Rhufeinig yr Ugeinfed Leng tua 120AD. Erbyn hyn mae'n ymddangos ei fod ar ben ei hunan ond pan gafodd ei godi roedd yn rhan o dreflan ffyniannus, gyda harbwr efallai oedd yn chwarae rhan allweddol yn y diwydiant plwm lleol. Y tro nesaf ichi ymweld â Phrestatyn, talwch alwad â'r safle sydd yn ddim ond tro byr o ganol y dref.

O Dan y Ddaear

Mae ymrwymiad gan y cwmnïau gwasanaethau ledled y DU i symud y ceblau pŵer a'u gosod o dan y ddaear yn y tirweddau a warchodir, fel y Parciau Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Cytunodd Scottish Power i roi ceblau tanddaearol drwy Barc Gwledig Moel Famau ym Mryniau Clwyd am ei fod o fewn AHNE Bryniau Clwyd.

Bu Scottish Power a'u contractwyr Murphy Plc wrthi'n gweithio drwy'r gaeaf yn cloddio ac yn gosod ceblau ar hyd darn o dir 3.5km o hyd. Erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o'r llinellau cebl o dan y ddaear, a bydd y rhai olaf o'r peilonau'n cael eu symud eleni. Yn rhan o'r project hwn, maent wedi ariannu llwybr troed i gysylltu'r ddau faes parcio yn y Parc er mwyn i bobl allu osgoi'r ffordd. Mae'r canlyniadau'n rhagorol

Cyn



Wedyn



Gronant yn Galw



Erbyn hyn, cychwynnodd un o ymwelwyr haf arbennig Sir Ddinbych - y forwennol fach - ar ei siwrne hir o Orllewin Affrica.

Bob gwanwyn, mae'r adar bach ysgafn hyn yn teithio tua'r gogledd i fagu gan orchfygu peryglon lawer. Ymhlith y bygythiadau ceir llwynog, cudyll coch a brain. Gan fod ymyriad gan bobl a thywydd garw yn ychwanegu at drafferthion yr adar mae'n hanfodol fod wardeniaid ar gael ar y safleoedd ledled y DU er mwyn cynnal y niferoedd o adar.

Roedd 2008 yng Ngronant yn dymor tra thebyg i 2007, ac er bod y tywydd yn ddrwg roedd y staff a'r gwirfoddolwyr yn ymrwymedig i'r gwaith. Tyfodd y nythfa i bron 104 o gywion ar ei anterth yng nghanol mis Awst. Dyma un o'r nythfaoedd mwyaf cynhyrchiol yn y DU.

Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych ynghyd ag ariannu angenrheidiol oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n gyfrifol am waith y

wardeniaid yn Nhwyni Gronant. Dyma beth ddywedodd Garry Davies, Uwch Warden o Wasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych :

"Yn ogystal â bod yn un o nythfaoedd olaf y forwennol fach yng Nghymru, mae Twyni Gronant yn un o'r rhai mwyaf yn y DU erbyn hyn. Mae gwaith gwirfoddolwyr yn dal i chwarae rhan bwysig o ran llwyddiant y nythfa, a hoffem ddiolch o galon i'r rhai a gyfrannodd dros 1200 oriau yn ystod y tymor hwn. "

Os ydych yn dymuno treulio awr neu ddwy yn rhoi cymorth i'r forwennol fach brin hon yn ystod 2009, rhwng Mai ac Awst, gofynnir ichi gysylltu â Gwasanaeth Cefn Gwlad yn Swyddfa Llyn Brickfields ar 01745 356197.



Yn eisiau – pobl i chwilio am fadfalloed



Mewn rhifynnau blaenorol o'r newyddlen hon cawsoch newyddion am ailgyflwyno'r fadfall y tywod prin i dwyni tywod Gronant. Erbyn hyn rydym yn ceisio penderfynu a fu'r project yn llwyddiant neu beidio drwy fonitro'r boblogaeth sy'n tyfu (gobeithio). Y flwyddyn 2008 oedd y flwyddyn gyntaf inni wneud archwiliadau a daethpwyd o hyd i rai madfallod. Doedd y nifer ddim yn fawr, ond yn ddigon i ddangos bod y boblogaeth ohonyn nhw'n gwneud yn iawn ac yn ymledu ychydig o'r lle cawsant eu gollwng. Byddwn yn monitro fel hyn eto eleni ac yn chwilio am wirfoddolwyr i'n helpu ni. Bydd hyfforddiant yn cael ei roi a bydd rota'n cael ei lunio er mwyn i'r boblogaeth gael ei harchwilio gydol y tymor magu. Erbyn mis Hydref rydym yn gobeithio gweld rhai ifainc, gan ddangos bod y madfallod yn gwneud eu gwaith.

Cyfnod newydd i Fwthyn y Bugail



Mae hen Fwthyn y Bugail yng Nghoed Nercwys a'r tir o'i amgylch yn cael newydd wedd! Roedd yr hen fwthyn a'r cae bach yn un o nodweddion Mynydd Nercwys cyn plannu Coed Nercwys yn gynnar yn y 1960au, ond am ddegawdau bu'n cuddio dan goed. Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn o dynnu boncyffion coed a adawyd ar ôl, cynaeafu, ac ailadeiladu wal gerrig o gwmpas y cae. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Bryniau Clwyd AHNE yn cydweithio mewn partneriaeth i adfywio'r ardal a'i throï'n ddol wair sy'n llawn o flodau.

Oherwydd yr arferion ffarmio cyfoes, mae cynefinoedd dolydd gwair blodeuog yn gynefinoedd prin ac eto maent yn gallu cynnal nifer fawr o rywogaethau o blanhigion, sy'n gallu darparu cynefin a

bwyd i anifeiliaid gwahanol. Mae'r arddangosfa o flodau yn ystod y gwanwyn a'r haf yn syfrdanol. Bu'r hen Fwthyn y Bugail (ar ben y cae) yn adfail ers talwm, ond gyda chymorth Archeolegydd Sir Ddinbych a gwirfoddolwyr lleol, rydym yn gobeithio archwilio'r hen adeilad a'i sylfeini i sicrhau ei fod yn cael ei gadw.

Disgwylir bydd y gwaith yn cymryd dwy flynedd cyn inni weld blodau lliwgar gwyllt yn y cae, ond rydym yn sicr bydd yn werth aros amdano.



Atgyfnerthu'r wal

Er gwaethaf tywydd gwael 2008, cwblhawyd gwaith y tymor olaf-ond-un ar Gastell Dinas Bran ym mis Rhagfyr.

Am y tro cyntaf ers blyneddau fe wisgwyd y twr siâp D â sgaffaldiau a gwnaeth Burleigh Stone y gwaith o ailadeiladu. Ail-bwyntio'r gwaith meini oedd y rhan fwyaf o'r gwaith er mwyn rhwystro'r tywydd, yn enwedig y glaw a'r rhew rhag treiddio i mewn i'r wal.

Mae'n gyfle gwych i gael golwg agos ar y castell, ac oherwydd y sgaffaldiau gallwn daro golwg ar rannau o'r adeilad sy'n anodd eu cyrraedd yn arferol.

Eleni, roedd yn brofiad cyffrous am fod olion o hen risiau ar ben uchaf y mur.

Roedd y grisiau'n arwain at goridor oedd yn mynd i lefelau uchaf y twr ac i'r neuadd y drws nesaf. Pan

adeiladwyd y castell gwreiddiol yn y drydedd ganrif ar ddeg, roedd Dinas Bran yn lle crand iawn, ond ychydig

o'r ysblander sydd ar ôl erbyn hyn ac rydym wedi ceisio atgynhyrchu'r mawredd allan o gliwiau fel hyn a welwyd yn 2008.



Lle gwych yw'r castell bob amser, ac yn werth y dringo. Cewch eich gwobrwyo gan y golygfeydd. Diolch i'r grant oddi wrth Cadwyn Clwyd a Cyngor Sir Ddinbych, bydd y castell yn fwy diogel ac yn cael ei gadw er mwyn ichi greu lluniau yn eich pen o fywyd yr oes pan gafodd y castell ei adeiladu gyntaf.

Reoli'r Rhostir yn cyflymu



Bu torri a llosgi yn y grug ar Foel Famau'n nodwedd gyffredin yn ddiweddar, ond wrth ichi chwilio ymhellach i Fryniau Clwyd a Mynyddoedd Llantysilio efallai byddwch yn sylwi bod y dechneg hon yn lledu ar y rhostiroedd. Bu tîm y Grug a'r Caerau'n cydweithio gyda'r tîrfeddianwyr a'r porwyr i wella'r cynefinoedd i anifeiliaid bori ac i'r bywyd gwyllt. Torrwyd a llosgwyd mwy na 30 erw o rostiroedd ar Foel y Parc, Penycloddiau, Moel Arthur, Moel Gyw a chefnen Llantysilio. I gael mwy o wybodaeth am y math hwn o reoli ewch i www.heatherandhillforts.co.uk.

Cymorth i llygoden y dŵr amddiffyn ei chartref yn Nyffryn yr Afon Chwiler

Ar un adeg roedd llygoden y dŵr, arwr y llyfr plant gan Kenneth Graham *The Wind in the Willows*, yn gyffredin ar hyd y dyfrffyrdd. Erbyn hyn, dyma'r mamal sy'n diflannu gyflymaf ym Mhrydain.



Andrew Parkinson

Nid llygoden fawr yw hon, mae'n byw ar lan yr afon ac yn anifail llysysol. Diflannodd o dros 90% o'r lleoedd roedd hi'n byw ynddynt ers talwm. Yn ôl yr arbenigwyr, gall ddiflannu'n gyfan gwbl o Ogledd Cymru yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

Er hynny, mae'n dal i oroesi mewn rhai mannau, fel Dyffryn yr Afon Chwiler yn AHNE Bryniau Clwyd. Yn ystod y ddwy flynedd a aeth heibio, bu'r project yn ei gwneud hi'n bosib darganfod ble maent yn bodoli ac i gydweithio gyda'r tîrfeddianwyr i reoli ac i wella cynefin fydd yn addas iddynt. Fel gyda llawer iawn o'n bywyd gwyllt, cafodd colli a dirywio'u cynefinoedd effaith ar y creaduriaid hyn, a bu cyflwyno minc America ffyrnig yn broblem arbennig. Yn ddiweddar, cynhaliwyd gweithdai i annog tîrfeddianwyr i gymryd rhan yn y project drwy reoli cynefinoedd a rheoli'r minc. Hyderwn, drwy ddod â gymaint o bobl i mewn i'r project ag y gallwn, bydd dalgylch yr Afon Chwiler yn gadarnle i'r anifail poblogaidd hwn.



Terry Whitaker

Bryn Prestatyn yn estyn croeso i blanhigion newydd



O'r diwedd mae'r project hir i amddiffyn y planhigyn merywen wedi dwyn ffrwyth ar Fryn Prestatyn ac mae'r set gyntaf o blanhigion wedi'u plannu'n ôl ar y bryn.

Gostyngodd poblogaeth wyllt y ferywen ym Mhrydain yn arw yn ystod y 50 mlynedd olaf. Mae'r rhan fwyaf yn hen iawn a heb adnewyddu o gwbl, nid yw planhigion Prestatyn yn eithriad i hyn.

Mae'r planhigion dros gant oed a ni chofnodwyd rhai newydd ers ambell flwyddyn. Bedair blynedd yn ôl, dechreuodd Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych gymryd toriadau i geisio'u tyfu nes iddynt gyrraedd maint oedd yn gallu gwrthsefyll y llwyni a'r cwningod. Nid oedd hyn yn dasg hawdd ond, gyda chymorth botanegwyr o Sw Caer, cafodd rhai toriadau eu meithrin ac ar ddiwedd 2008 fe'u plannwyd yn y gwyllt.

Cânt eu monitro'n ofalus a chaiff y llwyni'u chwynnu o'u cwmpas gan sicrhau eu bod yn llwyddo i oroesi. Bydd mwy o blanhigion yn barod eleni a hyderwn y bydd poblogaeth ieuengach a iachach yn sefydlu er mwyn iddynt fod yma ymhen canrif arall.

Planhigion Estron

Mae planhigion ac anifeiliaid nad ydynt yn gynhenid i'r DU ac a sefydlodd yma a lledaenu'n gyflym wedi bod yn creu problemau i'n bywyd gwyllt sydd eisoes yn brwydro i oroesi.

Un enghraifft o hyn yw Balsam yr Himalaia. Dyma'r planhigyn tal â'r blodau pinc sy'n tyfu'n drwchus ar lannau'r afon a'r nant. Cafodd ei gyflwyno yma o orllewin yr Himalaia yn 1839 a dianc i'r gwyllt o'r gerddi. Mae'r planhigyn ym mygu'r tyfiant arall sydd ar lannau'r dŵr gan leihau'r fioamrywiaeth am fod y gwreiddiau isel yn gadael y pridd yn foel pan fydd y planhigyn yn marw yn yr hydref, ac yna mae'r tir yn dueddol o erydu.



Sefydlwyd project ar raddfa eang i ddelio â'r planhigyn trafferthus hwn ar hyd glannau'r Afon Alun sy'n ymwneud â Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych a'r AHNE, Cyngor Sir y Fflint ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, Bywyd Gwyllt Gogledd Ddwyrain Cymru, Cyfeillion Coed Dyffryn yr Alun, Cymuned Llanferres a Cadwch Gymru'n Daclus. Bydd ymgyrch chwynnu fawr yn cychwyn y broses o ddileu'r planhigyn o 27 Mehefin i 5 Gorffennaf, a bydd angen eich help arnom. Edrychwch am y posteri sy'n hysbysebu'r digwyddiadau a dewch i gymryd rhan mewn tipyn o daro.

Rheoli Rhedyn o'r Awyr

Planhigyn ymledol yw rhedyn yn y rhostiroedd. Mewn niferoedd mawr, mae'n gorchuddio tir pori sy'n werthfawr i ddefaid ac yn gynefin i adar sy'n nythu ar y ddaear. Dyma hoff gartref y trogod sy'n cario heintiau hefyd. Mae torri a chleisio'n ddull cyffredin i geisio cyfyngu ar ymledu.



Yn yr haf 2008, fe dderbyniodd Mynyddoedd Llantysilio hwb yn yr ymdrech i reoli'r rhedyn drwy raglen o chwistrellu o'r awyr. Cytunodd Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar ddefnyddio'r chwynladdwr Asulox, a gafodd ei chwistrellu dros 675 erw o'r rhedyn. Tybir bod y llwyddiant o ran clirio'r rhedyn yn agos at 100%. Unwaith bydd y rhedyn wedi diflannu bydd y rhywogaethau fel grug a llus yn gallu ffynnu yn ei le, gan wella'r rhostir ar gyfer bywyd gwyllt ac amaethyddiaeth.

Blodau Gwylt

Cae bach o dŵl a llwyni yw Gro Isa, ar lannau'r Afon Ddyfrdwy yng Nghorwen. Mae'n gyforiog o flodau gwylt, perlysiâu a glaswellt hir sy'n fwyd ac yn gartref i nifer o fathau gwahanol o bryfed. Rhy'r llwyni loches angenrheidiol, lle nythu i adar, a chartref i'r cwningod a'r dyfrgi swil.



Oherwydd y llifogydd aml yr Afon Ddyfrdwy, fe ddinistriwyd y ffensys, fe grwydrodd y defaid i bori yma o'r caeau cyffiniol. a gwelwyd gwartheg cenfigennus o ochr draw'r afon yn padlo ar draws yr afon yn yr haf i ymuno yn y wledd. Mae'r pori wedi rhwystro'r blodau gwylt rhag blodeuo a hadu, ac mae'r llwyni sy'n ymledu i'r ddol, y mieri a'r eithin yn mygu'r planhigion eraill ac yn creu bygythiad i Ro Isa a'r bywyd sydd yma.

Ond daeth newyddion da ! Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych wedi gwneud Cytundeb Rheoli gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) i fynd i'r afael â'r materion hyn. Caed arian i godi ffens newydd rhag i'r anifelliaid bori yma, a bu'r gwirfoddolwyr yn cynorthwyo'r warden i glirio'r llwyni ymledol hefyd, felly bydd y ddol yn llawn o flodau gwylt lliwgar a swm pryfed eto eleni.

Dim Croeso i'r Coed Poplys



Unwaith eto bu gwirfoddolwyr allan yn Loggerheads i gwblhau'r gwaith anodd o dynnu'r ardal eang o goed poplys anfrodorol hybrid. Plannwyd y coed yn wreiddiol yn y 60au gan gwmni bysiau Crosville i ddarparu coed i wneud coesau matsis. Bydd tynnu'r coed hyn yn gyfle i'r coed brodorol ffynnu ac yn gadael i olau'r haul gyrraedd llawr y goedlan, a fydd o les i'r planhigion sydd ar y ddaear a'r bywyd gwylt sy'n byw yma. Mae modd rheoli'r ardal wedyn i'w defnyddio'n goedlan wedi tocio. Bu'r gwirfoddolwyr wrthi'n ddygn yn torri'r poplys ac yn llosgi'r coed rhag i'r gwreiddiau ail afael a thyfu'n ôl. Treuliwyd dros 200 awr o waith gwirfoddol i orffen y gwaith.

Plant yn plannu ar gyfer y dyfodol?



Er gwaethaf y tywydd oer, daeth dros 100 o blant o bedair ysgol gynradd i roi help i blannu 1000 o goed derw yng Nghoed Pen y Pigyn, Corwen.

Cafodd y planhigion cegid eu clirio dros bum mlynedd yn ôl. Ers hynny, mae nifer o'r hen dderw brodorol wedi syrthio yn y gwyntoedd cryfion. Bydd gwaith caled y plant a'n partneriaid, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, yn sicrhau bod Coed Pen y Pigyn yn dal yn goedlan dderw o bwys yn y blynyddoedd sydd i ddod.



Ystafell ddosbarth yr Awyr Agored

Does dim rhaid i ystafell ddosbarth fod â waliau Bu Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych yn helpu myfyrwyr Ysgol Dinas Bran i drawsnewid rhan o dir yr ysgol yn hafan i'r bywyd gwyllt. Bu'r myfyrwyr yn cyfnewid pensil am lif ac yn dysgu sgiliau fel tocio, crefftiau coedlan a chreu dŵl blodau gwyllt.

Cafodd y coed a dorrwyd eu defnyddio i greu cartrefi gaeaf (hibernacula) i'r amffibiaid a'r ymlusgiaid lleol, fel y neidr ddefaid. Bu myfyrwyr sy'n aelodau o Eco-gyngor yr ysgol a'r rhai oedd yn cymryd rhan yn Ymddiriedolaeth y Tywysog yn mynychu'r sesiynau bob pythefnos boed law, haul neu eira.

Ar drywydd ein cyndadau

Bu saith o ysgolion o Sir y Fflint a Sir Ddinbych yn teithio'n ôl mewn amser yn ystod Gŵyl Gerdded Sir Ddinbych.

Roedd disgyblion o'r ysgolion cynradd lleol yn dilyn ôl troed eu cyndadau o Goed Llangwyfan i gaer Penycloddiau. Ar hyd y daith, dangosodd y cymeriadau o'r gorffennol sut roedd pobl yn defnyddio Bryniau Clwyd dros yr oesoedd.



Dangosodd 'Jac Grugieir' sut fath o waith oedd gwaith cipar yn ystod cyfnod Oes Fictoria. Yn uwch i fyny, fe newidiodd yr olygfa i un o frwydro rhwng marchog o Gymro a Sais ar ochr y bryn. Roeddent yn brwydro dros eu tir. Danfonodd y Cymro'r Sais yn ei ôl i'w 'glawdd truenus' ac aeth hwnnw'n ôl, wedi'i orchfygu, i Loegr dros Glawdd Offa. Wrth y fynedfa i'r gaer, cafodd y plant eu rhwystro gan Warchodydd Oes yr Haearn oedd yn mynnu iddynt egluro pam roeddent yn tresmasu.

Gan ychwanegu at yr actio lliwgar daeth archeolegwyr Ymddiriedolaeth Clwyd-Powys ag arteffactau oedd filoedd o flynyddoedd oed. Cafodd y disgyblion y cyfle i gydio yn y dystiolaeth ac i ddysgu am waith yr archeolegwyr a pham mae treftadaeth Bryniau Clwyd AHNE yn un mor arbennig.

Yn ystod dau ddiwrnod cyffrous, cafodd pobl bleser o wneud teils Celteg, nyddu Oes yr Haearn, gwneud helmedau a thlysau, a phaentio'r corff â phaent y glaslys.

Trefnwyd dyddiau tebyg ar gyfer Gŵyl Gerdded Sir Ddinbych - Her y Grug a'r Bryngaerau ym mis Medi 2009. Ewch i www.wythnosgerddedsirdinbych.com

Ffenestr ar Lanarmon a Llanferres yn y 1950au

Mae disgyblion o Chweched Dosbarth Ysgol Brynhyfryd yn cydweithio gyda'r gwneuthurwyr ffilmiau, Lal a Huw Davies, i greu rhaglen drafod sy'n cymharu bywyd pobl ifanc heddiw yn Rhuthun â bywyd y bobl ifanc yn ystod y 1940au a'r 50au.

Dyma ddiwedd glo'r project ffilm Gymunedol W.H. Crawford a fu'n rhedeg ers 2005, ac a dyfodd yn sgil y diddordeb a gododd o wyllo'r ffilmiau sine gwreiddiol o eiddo Mr Crawford.

Roedd Mr Crawford yn ddyn hynod a ganddo'r rhagwelediad a'r arbenigedd i greu cyfres o ffilmiau sine yn ystod y 1940au a'r 1950au. Mae ei ffilm yn cynnwys llawer o ddeunydd sy'n ymwneud â bywyd gwledig y cyfnod hwn.

Bu un ar bymtheg o ddisgyblion sy'n astudio Bagloriaeth Cymru yn gwyllo'r ffilmiau gwreiddiol a'r cyfweiliadau ac yn sgwrsio â rhai o'r trigolion hyn.

Yna aeth bob un o'r disgyblion ati i greu ei ffilm fer ei hunan ynghylch bywyd bob dydd pobl ifanc Rhuthun heddiw. Penderfynodd rhai disgyblion o'r cwrs Cyfryngau i fynd un cam ymhellach yn

wirfoddol ac i gynhyrchu rhaglen drafod i siarad â'r trigolion oedd yn y ffilmiau gwreiddiol yn y 1950au ynghylch agweddau ar fywyd heddiw o gymharu a 50 mlynedd yn ôl.

Dyma Lal Davies, gwneuthurwr ffilmiau yn crynhoi'r project,
"Roedden ni am adeiladu ar brofiad y myfyrwyr a chreu awyrgylch stiwdio deledu iddyn nhw weithio ynddo. Dewisodd y myfyrwyr swyddogaeth fel cyflwynydd, cyfwelydd, criw camera ac is-olygyddion. Cawsom gymorth gwerthfawr i groesawu'n gwahoddedigion a gweithio goleuadau'r stiwdio. Roeddem yn ffilmio ar fformat seiat drafod a'i olygu'n ddwy raglen hanner awr yr un. Fe wynebodd bob un o'r disgyblion yr her a ddaeth yn sgil y project hon a bydd y canlyniadau'n ategu'n fawr at y dehongliad o ffilm wreiddiol W.H.Crawford."

Brynhyfryd yw'r drydedd ysgol leol i fod yn rhan o'r project cyffrous a ariannwyd gan Gronfa Datblygiad Cynaliadwy AHNE Bryniau Clwyd, Cadwyn Clwyd ac Asiantaeth Ffilmiau Cymru.



Addysg Geoamrywiaeth Loggerheads

Mae Pecyn Addysgol Geoamrywiaeth Loggerheads, a luniwyd ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a 3, ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn hyn. Mae'n darparu popeth sydd ei angen ar gyfer taith faes sy'n bleserus, yn addysgol ac yn gofiadwy i ddarganfod y Geoamrywiaeth syfrdanol sydd ym Mharc Gwledig Loggerheads.



Golyga 'Geoamrywiaeth' nid yn unig y creigiau, ffosiliau a mwynau ond hefyd y dreftadaeth sydd ynghlwm wrth y mwyngloddiau plwm, chwarelau a thirwedd Loggerheads a Bryniau Clwyd. Yn y pecyn ceir cyfuniad o wyddorau'r ddaear a threftadaeth y dirwedd a diwylliant Loggerheads gyda'r bwriad o ysgogi trafod a meddwl.

Seiliwyd yr adnoddau ar waith maes ymarferol ac maent yn caniatáu i'r athrawon deilwrio'u gweithgareddau yn ôl anghenion penodol eu plant. Er mai daeareg a daearyddiaeth yw prif bwnc y maes hwn, eto i gyd mae'r adnoddau'n drawsgwricwlaidd gan gynnwys nifer o agweddau ar wyddoniaeth, mathemateg, Cymraeg /Saesneg, hanes, celf a TGC.

Lluniwyd yr adnoddau yn benodol ar gyfer athrawon sydd heb unrhyw wybodaeth o Geoamrywiaeth, ac mae ynddo wybodaeth cefndir am y parc a'i Geoamrywiaeth yn ogystal â thafleuni gwaith, canllawiau at ddysgu, a syniadau ar gyfer gwaith paratoi a gwaith ar ôl yr ymweliad er mwyn i'r plant

wneud yn fawr o'r ymweliad. Ceir pecyn cyn-ymweld am ddim o Loggerheads i baratoi'r plant er mwyn iddynt gael y gwerth mwyaf o'r ymweliad.

Mae'r pecyn hwn, sydd am ddim, ac gael o Loggerheads neu gellir ei lwytho i lawr o www.SirDdinbych.gov.uk/CefnGwlad neu www.newrigs.org

Estynnir gwahoddiad i athrawon i'r dyddiau athrawon er mwyn iddynt gael cyfle i ymgysgu'r dyddiau â'r Parc a'r adnoddau. Cynhelir y dyddiau hyn, a ariannir gan Yrfaeodd Cymru, bob tymor ac maent yn boblogaidd dros ben.

Cynhyrchwyd Pecyn addysgol Geoamrywiaeth Loggerheads mewn partneriaeth ag AHNE Bryniau Clwyd, Gwasanaeth Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych, Cyngorau Sir y Fflint a Sir Ddinbych, Arden Early Learning, gyda chefnogaeth ariannol oddi wrth Gronfa Cynaliadwyaeth Treth Agregau'r Cynulliad Cenedlaethol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.